tafod elái

Rhagfyr 2008
Rhif 233
Pris 60c

Hwyl yn Codi Arian

Plant Ysgol Gymraeg Tonyrefail yn mwynhau codi arian tuag at Plant Mewn Angen

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA

Menter Caerdydd yn dathlu 10 mlynedd yn hybu'r iaith

Meri Huws, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ac Alun Ffred Jones AS, y Gweinidog Iaith a Threftadaeth, yn dathlu pen-blwydd Menter Caerdydd gyda Penri Williams, Cadeirydd, a rhai o blant Ffwrnais Awen a Chlwb Clocsio'r Fenter

Cangen Yn Dathlu 10

Brenda Davies, Irene Evans a Merle Roberts yn dathlu 10fed pen-blwydd Merched y Wawr Tonysguboriau

Mae eleni yn flwyddyn arbennig i gangen Tonysguboriau Merched y Wawr oherwydd byddwn ni'n dathlu deng mlynedd fel cangen. Sefydlwyd y gangen gan bedair dysgwraig ar ôl i ni orffen ar cwrs dwys gyda Basil Davies, sef Brenda Davies, Merle Roberts, Irene Evans a Margaret Jones. Ond erbyn hyn bu farw Margaret ar ôl salwch hir.

Penderfynon ni ymuno â Merched y Wawr er mwyn cael cyfle i gymdeithasu yn yr iaith Gymraeg. Ar un adeg dim ond dysgwyr oedd yn y gangen ond rydym wedi denu Cymry Cymraeg sy'n help mawr i'r gangen.

Cynhaliwyd cinio ym mwyty'r 'Barn', Mwyndy pan ddaeth ein holl aelodau at ei gilydd i ddathlu'r degawd. Cafodd Brenda ei anrhegu gyda mwclis a chlustlysau garnet gan yr aelodau mewn gwerthfawrogiad o'i gwaith fel ysgrifenyddes a thrysorydd ers sefydlu'r gangen. Cafodd Merle ei anrhegu â basged fawr o flodau am ei gwaith fel llywydd am dros bedair blynedd.

Trefnodd Beti Thomas, ein trysorydd newydd, deisen gydag arwyddlun Merched y Wawr arni a daeth Mary O'Brien â balwn a bathodyn wedi ei wneud ar ei chyfrifiadur i bob aelod, ac yn fwy pwysig na hynny daeth hi â'i chamera. Yn wir roedd hi'n noson i'w chofio.

I ddechrau'r flwyddyn cawson ni sgwrs am Hydref, sgwrs ddiddorol oedd e gan Betsi Griffiths o Gilfach Goch. Ym mis Tachwedd daeth merch ifanc, Nia Clements, a dangosodd hi ei sgil wrth addurno teisen Nadolig. Daeth hi â llawer o deisennau a rhoddodd hi nifer o syniadau i ni. Rydym i gyd yn gobeithio gwneud y deisen orau erioed eleni!

Ym mis Rhagfyr rydym yn edrych ymlaen at ymweliad y delynores Glenda Clwyd i'n helpu i ddathlu'r Nadolig. Fe fydd e'n ddiwedd addas i'r flwyddyn hon.

Bydd y gangen yn cwrdd ar drydedd nos Fercher y mis yn y Pafiliwn, Tonysguboriau am 7.30yh. Croeso i bawb. Manylion pellach: Brenda Davies 01443 225549.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 029 20842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar 1 Chwefror 2009
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
21 Ionawr 2009

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.net

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.net

Argraffwyr:
Gwasg
Morgannwg
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

CLWB Y DWRLYN

Y Rifiw
8.00yh Nos Wener
16 Ionawr
Neuadd y Pentref, Pentyrch

Tocynnau £5
Oddi wrth: 029 20890314

MERCHED Y WAWR
Cangen y Garth

Elenid Jones
yn siarad am
Madagascar
Nos Fercher 8.00yh
14 Ionawr 2009
yng Nghanolfan Garth Olwg

Am ragor o fanylion, ffoniwch:
01443 297583

Angela Cavil D.O. & Associates

PONTYPRIDD
Osteopathic Clinic Ltd

Sefydlwyd 1988

Rydym yn darparu Triniaeth Effeithiol a Phroffesiynol ar gyfer:
Anafiadau Chwaraeon · Poen Cefn · Nerf Clwm · Anafiadau Clun a Pen-glin · Pen Tost Tyndra · Poenau Gwddf ac Ysgwydd · Osteoathritis · Chwiplach · Babanod a Phlant

Ymweliadau Cartref
ac Apwyntiadau yn yr Hwyr,
Darparu Adroddiadau Meddygol,
Gofrestrwyd gyda BUPA a PPP.

Ffôn: 01443 485302
www.pontypriddosteopaths.co.uk
9 Gelliwastad Road, Pontypridd
CF37 2BW (dros ffordd i'r Miwni)

Aelod o GOsC a BOA

CYLCH CADWGAN

Gareth Miles

Oes o Sgwennu

Yng Nghampws Gymunedol
Gartholwg, Pentre'r Eglwys
Nos Wener, 23 Ionawr 2009
am 8.00pm

Cydnabyddir cefnogaeth
yr Academi Gymreig

Manylion pellach:
029 20891577

Cyngerdd Nadolig

Côr Godre'r Garth

Arweinydd Eilir Owen-Griffiths

gyda

Côr y Cwm

Arweinydd Elin Llywelyn-Williams

Capel Tabernacl,
Efail Isaf
7yh Nos Sul, 21 Rhagfyr

Tocynnau £5 (£3)
wrth y drws

Cydnabyddir cefnogaeth

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

CYMORTH.COM

Llinellau ffôn Cymraeg

Mae llawer o wasanaethau yn darparu llinellau ffôn Cymraeg. Ewch i www.cymorth.com i gael y rhifau ffôn.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

PRIODAS
Llongyfarchiadau i Edryd Jones o Bentyrch a Claire Nutter o Shepperton ar eu priodas yn eglwys Sant James, Weybridge ar Hydref 25. Y gwas priodas oedd Huw Jones o Bentre'r Eglwys, ffrind ysgol a choleg i Edryd. Treuliodd y pâr priod eu mis mêl ar ynysoedd y Maldives a byddant yn ymgartrefu yn Weybridge. Mae Edryd yn gweithio fel rheolwr yn adran maetheg chwaraeon GlaxoSmithKlein yn Llundain.

CYDYMDEIMLAD
Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Bronwen a Jim Morris a Lowri, Heledd a Nia yn dilyn marwolaeth mam Bronwen yng Nghrymych yn ddiweddar.

Trist hefyd yw cofnodi marwolaeth Allan Lock, o Waelod y Garth, a oedd yn gweithio gyda Henry Jones a Vaughan yn siop y cigydd yn y pentref. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r teulu.

MERCHED Y WAWR
Yng nghyfarfod Merched y Wawr ym mis Tachwedd cawsom y fraint o wrando ar Lyn West a Sian Pickard yn siarad am Syndrom Downs a'u profiadau nhw fel teuluoedd. Diddorol iawn oedd cael yr ochr bersonol yn ogystal â'r ffeithiau am y Syndrom. 'Roedd yr ystafell dan ei sang a phawb yn ddiolchgar i'r ddwy am eu cyflwyniad didwyll.

LLONGYFARCHIADAU
Llongyfarchiadau gwresog i Sara Lewis ar ennill gradd MSc. o Brifysgol Morgannwg. Dymunwn yn dda iddi yn ei gyrfa yn y dyfodol.

CADEIRYDD
Llongyfarchiadau Robert Morgan, Bronllwyn, ar gael ei ethol i gadair Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Plasmawr.

Salem, Tonteg

Bu farw Mrs. Joan Williams ddechrau'r mis a chwith fydd meddwl am unrhyw oedfa neu achlysur yn Salem heb ei phresenoldeb ffyddlon. Roedd yn hanu o Ynysybwl ond treuliodd ei bywyd priodasol yn Nhonteg gan symud yma, i ddechrau, at deulu ei gŵr ym Mwthyn Salem. Yno y magwyd ei mab ac roedd ei theulu a'i chymuned yn ganolbwynt ei bywyd. Bu ei dau ŵyr a'i hwyres - Morgan, Gerwyn a Kate - yn aelodau pybyr yn yr Ysgol Sul yn Salem a balchder mawr i Joan oedd eu gweld yn cymryd rhan yn yr Oedfaon Cymraeg. Mae Morgan bellach yn feddyg, Kate yn aelod o'r heddlu ar ôl gwneud gradd yn y Gyfraith a Gerwyn ar ei ail flwyddyn yn gwneud cwrs Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd.

Cynhaliwyd y Gwasanaeth angladdol yng Nghapel Salem ac yna'n yr Amlosgfa gyda chynulleidfa deilwng yn y ddau le i rannu'r ysbryd llon a lleddf wrth gofio am fywyd Joan. Cofir am ansawdd bendigedig y canu am hir ac roedd presenoldeb aelodau o gôr mab Joan a Chor Meibion Pontypridd ac Ynysybwl siwr o fod yn rhannol gyfrifol am hynny. Mae'n wir i ddweud fod Joan yn un o'r cymeriadau prin a fydd yn gadael bwlch sylweddol ar ei hôl yn ei Chapel a'i Chymuned.

Oedfaon Rhagfyr:
Rhagfyr 4 am 11 o'r gloch - Gwasanaeth Carolau i Ddysgwyr.
Rhagfyr 21 am 11 o'r gloch - Oedfa Deuluol ddwyieithog i gyfeiliant y Gerddorfa. Am 6 o'r gloch - Canu Carolau i olau cannwyll.

Estynnir ein dymuniadau gorau i Miss. Jean Lloyd Jones ar ei phenblwydd sbesial,-

Llongyfarchiadau cynnes i chi Jean
ar gyrraedd oed arbennig,
Dymunwn ichi nawr, i gyd,
ddyfodol clyd a diddig.

Priodas

Dymuniadau gorau i Aaron a Luned Fortt (gynt Phillips), Tonteg, sydd yn treulio mis mêl (hwyr) yn Awstralia a Seland Newydd. Priodwyd Luned ag Aaron yng Ngwesty'r Manor yng Nghrughywel fis Mawrth dwetha, pan ddaeth teuluoedd a ffrindiau at ei gilydd i ddathlu'r achlysur hapus (mam wedi anghofio rhoi'r newyddion yn y papur bro!). Roedd Owain yn was priodas i Aaron, a Manon, Neve a Ffion yn forynion priodas. Ar ôl gwledd o fwyd cafwyd adloniant a dawnsio bywiog iawn i fiwsig grwp Jac y Dô.

Mae'r pâr ifanc yn hedfan i Sydney yn gyntaf ac yn cymryd y cyfle i ymweld â'u teuluoedd, ewythr Aaron a'i deulu sydd yn byw yno, a Helen, cyfnither i Luned, sydd yn astudio yno am flwyddyn. Wedyn ymlaen i Seland Newydd i dreulio gweddill y gwyliau, ac yn cyrraedd yn ôl i Bontypridd mewn pryd i fwynhau dathliadau'r Nadolig.

RIVERVIEW CHIROPRACTIC

81 HOPKINSTOWN ROAD,
PONTYPRIDD, CF37 2PS

01443 650634

AM DRINIAETHAU EFFEITHIOL AM BOEN

GWDDF A CHEFN
PEN TOST
YSGWYDDAU A PHEN-GLINIAU
"WHIPLASH"
SCIATICA
AC
ANAFIADAU CHWARAEON

YN OGYSTAL AG ASESIAD
IECHYD LLAWN
MEWN AWYRGYLCH
HAMDDENOL A GLAN

DR OLWEN A GRIFFITHS
BSc. (HONS) CHIRO

GCC & BCA COFRESTRIEDIG

Pererinion a Storiau Hen Ferch

I'w chymdogion, hen ferch barchus mewn swydd gyfrifol fel ysgrifenyddes bersonol i'r Cyfarwyddwr Addysg yn Rhuthun oedd Myfanwy Davies. Ond yn y dirgel roedd hi'n sgrifennu storiau deifiol am drigolion Rhuthun gan ddatgelu eu rhagrith a'u parchusrwydd llethol. Cyhoeddwyd Storiau Hen Ferch gyntaf yn 1937 a bu'r llyfr yn llwyddiant mawr. Yn ddiweddar, fodd bynnag, daeth teipysgrif Pererinion, ei nofela hunangofiannol i'r fei. Mae'n adrodd hanes trist ei charwriaeth ddirgel â G a barhaodd am bymtheng mlynedd ac am y baban a aned iddynt. Bu llawer o ddyfalu pwy oedd G, ond y cyfan a wyddys amdano yw ei fod yn ŵr priod gryn dipyn yn hŷn na Myfanwy ac yn ddyn amlwg iawn ym mywyd Cymru.

Mae Pererinion a Storiau Hen Ferch newydd gael ei gyhoeddi ac mae'r Rhagymadrodd gan Nan Griffiths, gynt o Bentyrch, yn rhoi darlun mwy cyflawn o fywyd Jane Ann Jones ac yn egluro sut y daeth y deipysgrif i'w meddiant hi.
Cyhoeddir y gyfrol gan Wasg Honno a'r pris yw £7.99.

YSGOL GYNRADD GYMRAEG TONYREFAIL

CYNGOR YR YSGOL
Da gweld bod y plant yn cael cyfle i feithrin sgiliau mynegi barn a chael cyfle i gael dylanwad ar waith yr ysgol trwy gyfrwng Cyngor yr Ysgol. Llongyfarchiadau i bawb gafodd eu hethol. Pob lwc i chi - rhaid bod Barack Obama wedi cychwyn yn rhywle….

Aelodau'r Cyngor yw Wil Clements, Molly Davies, Caitlin Blake, Morgan Jones, Meaghan Euston, Summer Gowing, Emily Blick, Arwel Clements, Antonia Carpanini, Kielan Murphy, Gwynfor Dafydd, Liam Greening.

CODI ARIAN AR GYFER ELUSENNAU
Elusen diolchgarwch yr ysgol eleni oedd yr NSPCC. Cafodd y plant eu noddi i sillafu! Rhaid eu bod yn sillafwyr da gan iddyn nhw godi dros £1,000 ar gyfer yr elusen bwysig hon. Ar ddiwrnod y Plant mewn Angen, bu'r plant yn codi arian eto. Gofynnwyd iddyn nhw ddod ag unrhyw arian mân oedd yn y tŷ a chodwyd dros £300. Gwisgodd y plant ddillad lliwgar i'r ysgol y diwrnod hwnnw.

Aelodau Teulu Twm, Capel Tabernacl, fu'n herio'r tri chopa i gasglu arian tuag at Wateraid a Nicaragua

Gwis ysgol Disgyblion Sain Ffagan

SAIN FFAGAN
Aeth dosbarth Mr Phillips yn ôl mewn amser yn ystod ymweliad ag Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Cafodd pawb gyfle i wisgo yn arddull oes Fictoria a threulio'r diwrnod dan amodau Fictorianaidd. Pwy gafodd y gansen, tybed?

CYNLLUN PONTIO LLANHARI
Y mae canmol mawr i'r gwaith pontio sy'n digwydd rhwng yr ysgol ac Ysgol Gyfun Llanhari. Mae plant blwyddyn 6 eisoes wedi bod yn Llanhari ddwywaith – y tro cyntaf ar gyfer diwrnod o chwaraeon (gan gynnwys ras traws gwlad) a'r ail dro i ddiwrnod Menter a Busnes lle buon nhw'n cymryd rhan mewn gweithdai technoleg a chynhyrchu gwaith safonol iawn. Ar ben hyn, mae Mr Iolo Roberts, a fydd yn bennaeth blwyddyn ar y plant pan gyrhaeddan nhw Lanhari, yn dod i'r ysgol yn gyson i roi gwersi gymnasteg i'r plant.

Pêl-rwyd
Llongyfarchiadau i dîm pêl-rwyd yr ysgol a enillodd gystadleuaeth yr Urdd a gynhaliwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar 27 Tachwedd. Enillon nhw bob un o'u 7 gêm a sgoriodd neb yn eu herbyn nhw tan y rownd derfynol. Aelodau'r tîm yw Arianne,Celyn, Darcey, Ffion, Gwynfor, Harriet, Lauren a Liam. Byddan nhw nawr yn mynd yn eu blaenau i'r rownd genedlaethol yn Aberystwyth. Mae'r plant eisiau diolch yn fawr i'w hyfforddwraig, Mrs John, sef ysgrifenyddes yr ysgol.

Esme Rhiannon a Max Iolo

Cylch Meithrin Efail Isaf

Diwrnod a Noson Codi Arian
Rhagfyr 6ed
yn Neuadd y Pentref, Efail Isaf.
Amrywiaeth o stondinau a Sion Corn yn ystod y dydd a thwmpath a cherddoriaeth byw gyda'r nos.

Sarah a Gareth

JOB TRAC CYMRU

Arbenigwyr Recriwtio Siaradwyr Cymraeg

Canolfan Datblygu Busnes,
Ystad Ddiwydiannol
Trefforest,Pontypridd, CF37 5UR,
ffôn: 01443 843800,
www.jobtraccymru.com
www.safleswyddi.com

Edrych am waith?
Defnyddiwch eich iaith

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Phillipa a Chris Griffiths ar enedigaeth yr efeilliaid Max Iolo ac Esme Rhiannon yn Ysbyty'r Brifysgol Caerdydd ar Hydref 13eg. Mae Mam-gu, sef Shelagh Griffiths, Heol y Ffynnon, wrth ei bodd gyda'r ddau fach.

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Barbara Griffiths, Heol y Ffynnon a'r teulu yn eu galar o golli gŵr, tad a thad-cu. Bu Mr Trevor Griffiths yn wael ei iechyd am gyfnod hir, a mawr fu gofal Barbara a'r teulu amdano yn ystod ei gystudd. Cafodd Trevor ei eni yn Y Rhondda ond roedd gwreiddiau'r teulu yng Nghei Newydd, Ceredigion. Yn Gymro Cymraeg, roedd ei ferch Ann yn un o'r disgyblion cyntaf pan sefydlwyd Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg.

Bu Trevor yn gweithio i'r Bwrdd Trydan am saith mlynedd ar hugain cyn symud i weithio gyda Chyngor Sir Merthyr Tudful. Rydym yn meddwl amdanoch fel teulu yn eich hiraeth.

Gwellhad Buan
Dymunwn wellhad buan i Liz West, Nant y Felin, sydd wedi bod yn hercian o gwmpas ar ffyn baglau ar ôl syrthio yn yr ysgol yng Ngarth Olwg.

Merched y Garth
Bydd Côr Merched y Garth yn canu yng Ngŵyl Nadolig Sain Ffagan nos Iau, Rhagfyr 4ydd a hefyd yng Nghartref Dewi Sant, Pontyclun nos Lun, Rhagfyr 15fed. Croeso cynnes i Gavin Ashcroft sydd wedi cymryd yr awenau fel arweinydd y Côr. Nos Lun yw ein noson ymarfer erbyn hyn ac mae croeso i aelodau newydd ymuno â'r Côr yn festri'r Tabernacl am chwarter i wyth o'r gloch.

Parti'r Efail
Bu aelodau Parti'r Efail yn cystadlu yn yr Ŵyl Cerdd Dant yn y Rhyl. Roedd yna gystadlu brwd a'r safon yn uchel iawn. Ymddangosodd Parti'r Efail ar y llwyfan (ac ar y teledu) mewn dwy gystadleuaeth a chawsant y drydedd wobr yn yr adran alawon gwerin.

Priodas Sarah a Gareth

Ar ddydd Iau y 14eg o Awst priodwyd Sarah Unett, merch Gordon a Glenys Unett, Neyland Close, Ton-teg â Gareth Owen Davies, mab Derek a Hazel Davies, Penarth. Pridowyd yn neuadd y dref gan faer San Gimimgiano yn Tuscany, yr Eidal. Laura Unett, chwaer y briodferch oedd y forwyn ac Emily Davies, nith y priodfab.

Bu Sarah a Gareth yn byw yn Bangalore, India am ddwy flynedd lle bu Gareth yn gweithio'n dechrau cwmni newydd. Mae nhw nawr yn byw ym Mhenarth hefo'i mab bach, Dylan Owen. Llongyfarchiadau mawr i'r tri ohonynt gan y teulu, Mam, Dad a Laura.

Y TABERNACL

Merched y Tabernacl
Ar fore diflas glawog fe gychwynnodd rhyw ddeg ar hugain o wragedd T Tabernacl ar daith i'r Ffair Nadolig ger Chippenham. Gwnaeth y tywydd mo'n digalonni gan fod y ffair dan do. Roedd yna ddigonedd o stondinau amrywiol i'n denu a'n temptio i wario ein harian heb sôn am gyfle i gael coffi bach a theisen i orffwyso traed blinedig. Diolch Ros am drefnu'r daith ac am sicrhau fod elw'r daith yn cael ei gyflwyno i'r elusen Wateraid.

Ein cyfarfod nesaf fydd ein Cinio Nadolig yn y Llew Coch ym Mhendeulwyn ar Ragfyr 9fed.

Teulu Twm
Diolch i Suzanne Rees am drefnu taith i aelodau Teulu Twm i Gaerfaddon ar y 15fed o Dachwedd.

Noson Gymdeithasol
Nos Fawrth Tachwedd 25ain cynhaliwyd Noson Gymdeithasol yn Neuadd y Pentref, Efail Isaf. Daeth nifer fawr o aelodau a ffrindiau'r Tabernacl ynghyd a chafodd pawb gyfle i brynu anrhegion Nadolig unigryw. Roedd yno amrywiaeth o stondinau a chyfle i gael sgwrs dros baned o goffi neu ddiod Nadoligaidd a Mins Pei.

Diolch i Gwerfyl Morse, Catrin Rees a Lowri Roberts a'u ffrindiau am drefnu'r noson hyfryd. Rhoddwyd elw'r noson i elusen Wateraid.

Gwasanaeth Noswyl Nadolig
Fe fydd y cyfarfod arferol ar Noswyl y Nadolig am 11 o'r gloch yr hwyr yn y capel. Cofiwch fynd ati i baratoi eitemau unigol, teuluol neu fesul pentref neu ardal er mwyn gwneud y noson yn un llwyddiannus. Croeso cynnes i bawb.

Trefn yr oedfaon Rhagfyr 7fed oedfa Gymun o dan ofal y Gweinidog
Rhagfyr 14eg Oedfa Nadolig y plant
Rhagfyr 21ain Oedfa Nadolig Teulu Twm
Rhagfyr 28ain Y Parchedig Cynwil Williams
Ionawr 4ydd Oedfa Gymun o dan ofal ein Gweinidog
Ionawr 11eg Y Parch Aled Edwards
Ionawr 18fed Oedfa Deuluol
Ionawr 25ain Apêl De Affrica, Y Parchedig Tom Defis

MSc mewn Ynni Adnewyddadwy

Llongyfarchiadau gwresog i Gethin White, mab hynaf Margaret a Steve White, Forest Hills, Tonysguboriau, ar ennill gradd MSc mewn Ynni Adnewyddadwy a Rheolaeth Adnoddau o Brifysgol Morgannwg. Mae Gethin, sy'n byw ym Meisgyn, yn gweithio i Gyngor Gofal Cymru.

RB
CYNNAL A CHADW GWAITH PLYMIO, GWRESOGI A NWY

> GWASANAETHU BWILERI A THANAU
> TYSTYSGRIFAU DIOGELWCH LANDLORD
> ATGYWEIRIO PLYMIO A GWRESOGI
> TRWSIO GOLLWNG DŴR A TORIADAU
> GALWADAU BRYS

CORGI Gas

GWASANAETH DIBYNNOL
Ffôn: 07859 001 482
ebost: rbplumbing@hotmail.com



DIWRNOD PLANT MEWN ANGEN
Roedd hi'n ddiwrnod o gyffro mawr yn yr ysgol ar Dachwedd y 12fed wrth i bob plentyn wisgo fyny fel y cymeriad yr oedden nhw am fod ar ôl tyfu fyny. Bu ambell un o'r athrawon yn ddigon dewr i fentro gwisgo fyny hefyd - yn eu plith roedd Wonder Woman! Bu'r plant wrthi yn ystod yr amserau chwarae hefyd yn gwerthu cacennau ac yn cynnig adloniant cerddorol. Roedd hi'n bleser gallu cyflwyno siec o yn agos iawn i £900 i "Blant Mewn Angen" ar ddiwedd y dydd. Diolch am ymdrechion a chyfraniad pawb.

OPERATION CHRISTMAS CHILD
Diolch hefyd i bawb a fu'n brysur yn llenwi bocsys esgidiau ag anrhegion i'w hanfon drwy law "Operation Christmas Child" i blant bach llai ffodus na ni. Cludwyd yn agos i 130 bocs i lawr i'r ganolfan yn Nhonysguboriau.

NOSON TÂN GWYLLT
Cafwyd noson lwyddiannus arall eleni eto wrth i blant, rhieni a chyfeillion heidio i'r ysgol i fwynhau gwledd o dân gwyllt…. ac wrth gwrs, ambell i fyrger neu gi poeth! Diolch i Gyfeillion yr Ysgol am noson wych eleni eto ac i bawb a fu'n estyn cymorth.

NOSON YN Y GADEIRLAN
Ar Dachwedd y 24ain, cynhaliwyd cyngerdd arbennig yn y Gadeirlan yn Llandaf i godi arian i elusen LATCH. Ysgol Plasmawr oedd yn gyfrifol am drefnu'r noson a gwahoddwyd yr ysgolion cynradd hynny sy'n ei bwydo i gyfrannu tuag at eitemau'r noson. Unodd plant Blynyddoedd 5 a 6 Ysgol Creigiau â dros gant o blant eraill i berfformio fel Côr Unedig. Roedd yn braf iawn gweld cymaint o gyn-ddisgyblion yno hefyd yn cymryd rhan mor flaenllaw.

LLYFR MAWR Y PLANT
Yn ddiweddar, aeth yr Adran Gymraeg i gyd i lawr i Ganolfan y Mileniwm i weld perfformiad Cwmni Drama Bara Caws o Lyfr Mawr y Plant. Wedi llwyddo i gael yn agos i 150 o blant i'w seddau yn y nefolion leoedd, fe gawsom wledd. Roedd hi'n braf gweld Wil-Cwac-Cwac, Siôn Blewyn Coch a'u ffrindiau yn fyw o flaen ein llygaid.

Mae Dosbarthiadau 3 a 4 wedi bod ar ddau drip yn ddiweddar – un i ymweld â'r capel yn Efail Isaf ac yna'r Eglwys Gadeiriol yn Llandaf ac un arall i Sain Ffagan i astudio'r gwahanol fathau o dai a chartrefi sydd yno. Bu'r ddau yn llwyddiannus iawn.

Ysgol Gymraeg Castellau

Ymweliadau
Aeth plant Blwyddyn 5 a 6 ar daith gerdded i Bontypridd o dan arweiniad Mr Brian Davies, Amgueddfa Pontypridd, i olrhain hanes James James ac Evan James fel rhan o waith Hanes y tymor.

Cawsant amser hyfryd hefyd yn ymweld ag Eglwys Llantrisant a diolch yn fawr i'r Ficer Parkinson am ddangos symbolau'r Eglwys iddynt a son am ei waith. Ar ôl hynny aethant i siop Borders, yn Llantrisant ar gyfer lansiad cyfieithiad Cymraeg Llyfrau 'Tin-tin'.

Bu Mr Brian Davies yn ymweld â'r ysgol i sôn am y 'Tuduriaid' gyda phlant Blwyddyn 4 hefyd.

Wythnos gwrth – fwlio.
Daeth Linda James o'r elusen 'Bullies out', i'r ysgol i siarad â phlant Blwyddyn 5 a 6 i godi ymwybyddiaeth o'r gwahanol fathau o fwlio. Hefyd gwnaethpwyd amryw o weithgareddau yn yr ysgol yn ystod yr wythnos hon eleni. Crewyd wal ffrindiau ym mhob dosbarth yn yr ysgol er mwyn hyrwyddo cyfeillgarwch ymhlith y plant. Cyflwynodd plant y 'Cyngor Ysgol', wasanaeth yn esbonio gwaith y cynllun clust', ar yr iard yn ystod amser chwarae lle maent yn gofalu am blant sydd yn unig, yn drist neu angen cymorth. Gwisgodd pawb sticer, yr athrawon hefyd, yn dangos wyneb hapus. Diolch i'r plant am ymateb mor frwd.

Croeso
Croeso i Miss Delyth Owens, a fydd yn treulio sawl wythnos yn yr ysgol yn gyntaf gyda phlant blwyddyn 1 ac yna ar ôl y Nadolig gyda phlant y Meithrin.

Ymweliad.
Daeth P.C. Siân Jones i drafod materion pwysig gyda'r plant. Trafodwyd siarad gyda dieithriaid gyda phlant Blwyddyn 2, moddion a chyffuriau gyda phlant Blwyddyn 3 ac eto agweddau ar fwlio gyda disgyblion Blwyddyn 4. Diolch iddi am ei chyflwyniadau trwyadl.

Bonjour Castellau.!
Dathlwyd diwrnod Ffrengig yn nosbarthiadau'r Derbyn ym mis Tachwedd. Roedd y plant wrth eu bodd yn gwisgo dillad streipïog ac yn bwyta bara Ffrengig . Très Bien.

Cafodd Dosbarth 2 ymweliad arbennig gan feddyg yn ddiweddar. Daeth Dr Evans i'r dosbarth i siarad â'r plant am y corff a'r esgyrn. Daeth â lluniau pelydr-x gyda fe ac fe wnaeth blaster caled i Iestyn, Angharad a Holly. Dyna beth oedd hwyl!

Rygbi Tag

Hybu'r iaith Gymraeg drwy fwynhau chwarae rygbi tag yw nod clwb newydd i blant sy'n dechrau ar ôl y Nadolig.

Mi fydd clwb Sgorio58 yn cynnal sesiynau i blant yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Gartholwg, Pentref Eglwys, o fis Ionawr ymlaen ar nos Wener.

Mae'r clwb ar agor i ddisgyblion dosbarth derbyn a blynyddoedd 1 i 6 ac yno byddent yn cael y cyfle i wneud ffrindiau a dysgu sgiliau newydd gan gynnwys pasio, dal, a chicio.

Arweinwyr Sgorio58 yw Gethin Thomas, 34, ac Owen Thomas, 28, sy'n gyn-ddisgyblion o Ysgol Gyfun Llanhari a meibion i John ac Judith Thomas, Efail Isaf. Mae nhw wedi agor dau glwb yn barod yng Nghaerdydd ers mis Hydref ac mae'r ddau yn llwyddiannus iawn. Daw'r ffigwr 58 o'r flwyddyn 1958 - blwyddyn lwyddiannus i chwaraeon yng Ngymru."

I gofrestru eich plentyn ac am fwy o fanylion ewch i www.Sgorio58.com neu ffoniwch 07986 177008.

Plant Mewn Angen.
Casglwyd £270 ar gyfer yr elusen yma eleni am y fraint o wisgo pyjamas am y diwrnod, hyd yn oed yr athrawon. Da iawn chi blant.

Jambori'r Urdd.
Aeth plant Blwyddyn 3 a 4 i ganolfan Hamdden Llantrisant ar gyfer y jambori. Maent yn dal i ganu'r caneuon.

Bocsys Nadolig'.
Derbyniwyd dros 60 o focsys ar gyfer yr elusen 'Operation Christmas Child', eto eleni, diolch yn fawr.

Pantomeim.
Aeth plant Blwyddyn 1 a 2 am drip i weld y pantomeim yn theatr y 'Miwni,' ym Mhontypridd ar ddiwedd Mis Tachwedd. Enw'r sioe oedd 'Martyn , Mam a'r Wyau Aur' ac fe gafodd pawb yr hwyl arferol.

Côr yr ysgol.
Bydd côr yr ysgol yn canu yng ngwasanaeth Carolau'r Gymuned yn Eglwys St. Michael yn y Beddau nos Wener Tachwedd 28 a hefyd yn eglwys Llantrisant dydd Sadwrn Rhagfyr 13 am 2.00 yn y prynhawn.

Dyddiadur yr ysgol
Dydd Gwener, Rhagfyr 5 – Ffair Nadolig yr ysgol 3.30-6.30.
Cyngherddau Nadolig
Meithrin – Bore dydd Mawrth, Rhagfyr 9 am 10.00.
Plant y Cyfnod Sylfaen a C.A.2 – Prynhawn dydd Mawrth Rhagfyr 8 a dydd Mercher Rhagfyr 10 am 1.45 y prynhawn.

Cwmdalent – Ffactor X y Cymoedd
Nos Wener, Tachwedd 7 oedd Noson rownd derfynol Cwmdalent. Hon oedd noson derfynol yr holl rowndiau gafodd eu cynnal mewn ysgolion ar hyd a lled y Sir ac mi welwyd canu, dawnsio, actio, breakdawnsio... hyd yn oed dawns y glocsen "a cappella". Mi gafodd y rhai ohonoch wnaeth fynychu Theatr Garth Olwg y noson honno, noson werth ei chofio a mawr oedd y clod a roddwyd i bob un o'r cystadleuwyr. Ond yn ôl y beirniaid Bethan McLean a Lloyd Griffiths - Dawnsio Latin - YGG Rhydywaun, ddaeth yn drydydd, Grŵp Dawnsio Hip Hop FBA - Ffion Berry, Alex O'Brien, Bethan Haines - YGG Rhydywaun ddaeth yn ail, ond yn fuddugol roedd Jacob Lewis - Unawd - YGG Llanhari wnaeth fersiwn anhygoel o'r gân Myfanwy. Llongyfarchiadau i bawb, ac amser dechrau ymarfer nawr ar gyfer y flwyddyn nesa.

Drama-Dâr- Cynllun Drama Newydd yn Aberdâr
Mi fydd y Fenter yn cynnal cynllun drama Cymraeg yn Aberdâr yn y flwyddyn newydd. Cynhelir y cynllun yng Nghanolfan Cwmamam ac mi fydd yn agored i ddisgyblion Ysgolion Cynradd yr ardal ac mi fydd mewn 2 sesiwn awr yn cychwyn am 4.00 y.h. Bwriedir iddo ddechrau nos Lun, Ionawr 12fed 2009 a rhedeg tan yr Haf (gyda thoriadau adeg gwyliau ysgol). Mae'r niferoedd yn gyfyngedig ac felly os oes gennych ddiddordeb i'ch plentyn fynychu'r cynllun, cysylltwch â'r Fenter ar naill ai 01443 226386 neu 01685 882299. Hefyd allwch chi ofyn am fanylion pellach ar e-bost : prifswyddog@menteriaith.org

Datblygu Sustem e-achlysur y Fenter !
Ryn ni'n gobeithio ychwanegu yn sylweddol at ein bas data o gyfeiriadau e-bost pobl sydd yn awyddus i dderbyn gwybodaeth am weithgareddau'r Fenter a mudiadau Cymraeg eraill o gwmpas Rhondda Cynon Taf. Os hoffech chi gofrestru, mi allwch wneud ar y wefan: Cliciwch ar Gwasanaethau ac wedyn cliciwch ar Cofrestru e-bost. Neu os oes yn well 'da chi, anfonwch e-bost at: prifswyddog@menteriaith.org gan nodi eich dymuniad.

Hanes Llyfrau Tintin

Dim ond pump llyfr Tintin a droswyd i'r Gymraeg cyn nawr ac fe'u troswyd o'r Ffrangeg gan Roger Boore ac fe'u cyhoeddwyd gan Wasg y Dref Wen rhwng 1978 a 1982. Dyma enwau'r llyfrau; Y Cranc a'r Crafangau Aur, Cyfrinach yr Uncorn, Trysor Rackham Goch, Teyrnwialen Ottokar a Tintin a'r Dyn Eira Dychrynllyd.

Yn anffodus, a hyd y gwn i, ond un argraffiad maen nhw wedi gwneud erioed ac maen nhw allan o brint ers tro byd ac ni wn faint o gopïau o bob un a gafodd eu hargraffu. Felly gallaf ddychmygu eu bod yn brin iawn y dyddiau hyn ac nad oes fawr o gyfle i blant Cymru eu darllen.

Jacob Lewis gyda'i gwpan a siec Cronfa'r Loteri tuag at gwaith ieuenctid y Fenter.

Cartref a Delwedd Newydd y Fenter
Mi fydd y Fenter yn symud i gartref newydd ar ddechrau mis Rhagfyr ac i ddathlu, mae'n mabwysiadu logo a delwedd newydd hefyd. Ein cyfeiriad newydd fydd : Llawr Cyntaf, 9, Y Stryd Fawr, Pontypridd. CF37 1QJ a hwn fydd unig swyddfa'r Fenter o'r flwyddyn newydd.

Clwb Pêl-droed a Rygbi Tag Newydd
Bydd Sgorio '58 yn cynnal clwb chwaraeon ar ôl ysgol cyffrous i ddisgyblion ysgolion cynradd Cymraeg. Mi fydd yn dechrau yn y flwyddyn newydd ar Ionawr y 9fed, ac yn cael ei gynnal yn wythnosol. Bydd y clwb yn cael ei gynnal ar nos Wener i ddechrau ond mae hi'n fwriad estyn hyn ar ôl y Pasg. Dyma fydd yr amserlen i ddechrau:
Nos Wener: 5.00 - 5.50pm: Rygbi TAG Derbyn; Bl1 a Bl2. Yn y gampfa, Garth Olwg.
Nos Wener: 6.10 - 7.00pm: Pêl droed: Bl 3 & 4 + Bl 5 & 6. Astroturf, Garth Olwg.

Addaswyd y llyfrau newydd gan Dafydd Jones a dywedodd iddo gael blas drwy bori drwy lyfrau Tintin er mwyn gwella ei Ffrangeg. Rwy'n gallu uniaethu â hyn. Gwnes i union yr un peth wrth astudio'r Llydaweg yn y Brifysgol. Prynais i bentwr o lyfrau Tintin yn yr iaith honno a mawr oedd y cymorth imi wrth imi geisio meistroli'r iaith.

Enw'r ci bach yn y llyfrau cynt yw Smwt, y gwyddonydd yw Odfa Benchwiban a'r ddau ddiectif yw Johns a Johnes. Tuedda rhai pobl i gredu bod y ddau yn efeilliaid (the Thomson Twins) ond y gwir yw nad ydynt yn perthyn i'w gilydd o gwbl. Yr unig wahaniaeth rhyngddynt yw'r ffordd y maen nhw'n torri eu mwstas.

Wyth llyfr Asterix a droswyd i'r Gymraeg rhwng 1976 a 1981 ac maen nhw 'n glasuron yr iaith Gymraeg. Fe'u troswyd o'r Ffrangeg gan Alun Jones, cyn ddisgybl ysgol Rhydyfelen, os cofiaf yn iawn a brawd i Dafydd Jones, rwyf newydd sôn amdano. Unwaith eto, ond un argraffiad maen nhw wedi cael ac mae rhai ohonynt yn brin iawn.

Dyma enwau'r llyfrau: Asterix y Galiad, Asterix a Cleopatra, Asterix yn y Gemau Olympaidd, Asterix ac Anrheg Cesar, Asterix ym Mhrydain (clasur y dylai fod copi gan bawb), Asterix Gladiator , Asterix ym Myddyn Cesar ac Asterix a'r Ornest Fawr.

Maen nhw'n werth arian mawr y dyddiau hyn. Dwy flynedd yn ôl talais i £50 am gopi o Asterix a Cleopatra - er fy mod i wedi bod yn casglu'r llyfrau hyn ers blynyddoedd, dyma oedd y tro cyntaf erioed imi weld copi o'r campwaith hwn. Hefyd rwyf wedi gweld Asterix ym Mhrydain ar e-bay. A'r gost? - £70.

Wrth gwrs nid y Cymry o'r rheidrwydd sydd yn prynu'r llyfrau hyn ond Tintinologists a fans Asterix sydd yn hoffi casglu'r llyfrau ym mhob iaith.

Hoffwn i weld Gwasg y Dref Wen yn argraffu'r llyfrau hyn o'r newydd yn ogystal â rhagor i ddod gan gwmni Dalen.

Fis yn ôl, rhoddais i fenthyg cwpl o'm llyfrau Asterix i rywun yn y gweithle. Perodd hyn iddo fynd i chwilio; yn llofft ei dŷ ac er syndod iddo, roedd ganddo 6 o'r 8 llyfr hyn.

Felly ewch eto ffrindiau i chwilio ym mhob twll a chornel. Pwy a ŵyr, efallai eich bod yn eistedd ar ffortiwn?

Colin Murphy

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams

Wyres
Dyma lun o Eleni Grace, merch fach gyntaf-anedig Bethan a Michael Ritchie, sy'n byw yn Llundain. Ganwyd Eleni yn gynnar fore Sul, Hydref 19eg. Hi yw wyres gyntaf Gill a Bryn Jones, Parc y Coed a Christine a Ronnie Ritchie, sy'n byw ar Ynys Jersey. Mae'r ddau deulu yn cyd-lawenhau ar yr achlysur ac yn edrych ymlaen at ymweliadau mynych Eleni a'i rhieni i Greigiau ac i Jersey.

Dechrau 'dwl' i'r tymor newydd

Mae hi wedi bod yn gyfnod prysur i Josh Morgan yr actor a pherfformiwr ifanc o Greigiau. Ym mis Medi, fe ddechreuodd yn ei ysgol newydd ym Mhlasmawr ac mae newid ysgol yn ddigon o sialens i unrhyw un, dybiwn i! Ond o fewn dyddiau daeth y cynnig i gymryd rhan mewn dwy gyfres deledu i blant, *Mees a Gorsaf Hud.*

Fe oedd llais Dylan a Bleu, yr ymwelydd o Ffrainc. Dim ond un rhaglen y bu Josh ynddi gyda'r *Meees* ond gyda *Gorsaf Hud*, dyma fe'n dechrau gweithio ar 26 ohonynt. Pyped o'r enw Dwl ydy ef (adlewyrchu cymeriad Josh i'r dim meddai ei fam Ingrid!) ac mae'r rhaglen yn cael ei darlledu fel rhan o ddarpariaeth Cyw ar S4C.

Yn ddisgybl blwyddyn saith ym Mhlasmawr, mae e wedi cael cyfleoedd newydd i brofi ei ddoniau. Bythefnos yn ôl, dyma fe'n cael ei wobrwyo gan yr ysgol fel Canwr y Flwyddyn (blwyddyn saith, wyth a naw). Ac yna, ar Dachwedd 24, bu'n arwain y perfformwyr lawr yr eil, ar ddechrau noson o gerddoriaeth yr ysgol er budd elusen LATCH. Fe'i cynhaliwyd yn Eglwys Gadeiriol Llandaf o flaen cynulleidfa o 800. Bu'n canu fel unawdydd, mewn deuawd ac fel aelod o'r côr iau.

Wrth edrych ymlaen at y dyfodol, fe fydd yr amryddawn Josh yn cymryd rhan yng Ngŵyl Dawnsio Gwerin y Byd 2009 ar ynys Majorca, gyda chriw Adran Bro Taf. Yn wir, mae wedi bod yn gyfnod prysur ac yn argoeli felly am gryn amser i ddod.

L.M.

Cydymdeimlad
Estynnwn ein cydymdeimlad â Jim Prosser, Meryl a'r bechgyn. Bu farw Mam Jim yn ddiweddar – brodor o Abertawe oedd Mrs Eileen Prosser.

Dyweddiad
O'r diwedd! Llongyfarchiadau Dr Rwth Ellis Owen a Stewart Baines, o Melton Mowbray sy newydd ddyweddio. Mae'r ddau yn gweithio yn y byd meddygol – Rwth yn Gofrestrydd yn Adran Radioleg, Ysbyty'r Waun a Stewart yn bennaeth Adran C.T. scans Ysbyty Brenhinol Llantrisant. Pob hapusrwydd i chi eich dau. (Syr Wynff – onid oes yna agoriad fan hyn am gyfeiriad at *borc peis bach*? Sori!)

Priodas haf
Dymuniadau gorau i Sara Ellis Owen ac Edward Crosse a briodwyd yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod y Garth ar Awst 16eg eleni. Gweinyddwyd y briodas gan y Parch. Ddr. R. Alun Evans ac fe gynhaliwyd y wledd ym Maes Mynach. Mae'r ddau wedi gwneud eu cartref yn Llundain. Pob hapusrwydd i chi eich dau.

Geni
Croeso i'r byd – Gwenllian Elizabeth Meade-Owen! Fe'i ganed ar y 3ydd o Hydref yn ferch fach i Catrin Ellis Owen a Stephen Meade, yng Nghaerwrangon. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r teulu bach.

Gwenllian Elizabeth Meade-Owen

TO NEWYDD I GAPEL BETHLEHEM, GWAELOD Y GARTH

Testun llawenydd i aelodau a chyfeillion capel Bethlehem, Gwaelod y Garth oedd clywed yn ddiweddar fod Cronfa Dreftadaeth y Loteri, a Cadw hefyd, wedi cefnogi eu cais i ail doi y capel a'r festri. Bydd y Loteri yn cyfrannu £53,400 a Cadw yn rhoi £25,576. Cododd yr eglwys dros £15,000 ei hunan i dalu'r gweddill.

Mae Bethlehem yn adeilad cofrestredig, a godwyd yn 1872 yn arddull capeli diymhongar y pentrefi i'r gogledd o Gaerdydd. Cadwodd lawer iawn o'i nodweddion syml gwreiddiol. Yn wahanol i sawl capel arall lleol, fodd bynnag, os blinodd ei do, ni flinodd ei ysbryd. Mae ei aelodaeth yn ffynnu dan arweiniad y Parchedig Ddr R Alun Evans, a cheir cynulleidfa gref ar fore Sul a llu o weithgareddau eraill drwy gydol y flwyddyn.

Gwneir yr ail doi yn y flwyddyn newydd. Neil Smith a'i Gwmni o'r Bontfaen fydd yn ymgymryd â'r gwaith, dan ofal Alwyn Jones, Penseiri o Ffynnon Taf sy'n arbenigo ar gadwraeth adeiladau hanesyddol.

Dwedodd Rhys Dafis, Ysgrifennydd y Capel: "Mae hyn yn newyddion gwych i Fethlehem ar drothwy'r Nadolig! Bydd y gwaith hanfodol hwn yn sicrhau diddosrwydd y Capel, fel gall y cenedlaethau nesaf o addolwyr hwythau gynnig 'lle yn y llety' hwn. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Loteri a Cadw am weld yn dda i'n cefnogi."

Edward Crosse a Sara Ellis Owen

menter caerdydd

www.mentercaerdydd.org
029 20 56 56 58

Menter Caerdydd yn dathlu 10 oed

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn ystod mis Tachwedd i ddathlu 10 mlynedd ers sefydlu Menter Caerdydd. Un o uchafbwyntiau'r dathlu oedd derbyniad yn y Senedd yng nghwmni Alun Ffred Jones AS, Meri Huws, Ffwrnais Awen a Chlwb Clocsio Menter Caerdydd.

Edrych ymlaen tuag at y ddeng mlynedd nesaf nawr!

Gwyl Aeaf Caerdydd

Dydd Mercher, Rhagfyr 10

4pm – 6pm
Sali Mali, Superted, Norman* Price a *Mr Urdd
6pm – 8pm
Ffwrnais Awen* a *Chôr y Gleision

Adloniant, Sglefrio, Olwyn Fawr, Ffair,
Caffi, Bar a llawer mwy….
I archebu sesiwn sgelfrio ffoniwch 20 230130

Clybiau Menter Caerdydd Ionawr 2008

Clwb Nofio
Nos Fawrth / 5.30pm - 8.30pm
Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd
Clwb Rygbi (Derbyn a Blwyddyn 1)
Nos Wener / 4.30pm - 5.30pm
Canolfan Powerleague, Manor Way
Clwb Drama Bach (Derbyn a Blwyddyn 1)
Prynhawn Sul / 1.30pm - 2.30pm
Canolfan yr Urdd
Clwb Sbaeneg
Nos Iau / 4.30pm - 5.30pm
Canolfan Gymunedol Treganna
Clwb Clocsio
Nos Fawrth / 5.45pm - 7.30pm
Capel Salem, Treganna
Ffwrnais Awen
Prynhawn Sul / 2.30pm - 4.30pm a 5pm - 7pm

menter caerdydd www.mentercaerdydd.org 029 2056 5658

Newyddion Dysgwyr Morgannwg

Bydd y tymor dysgu yn dod i ben yr wythnos nesa ar ôl tymor prysur o ddysgu a gweithgareddau anffurfiol.

Mae'r Clwb Cerdded yn mynd o nerth i nerth. Walter Jones oedd yr arweinydd ar yr ail daith ym mis Tachwedd a chawson ni fore pleserus iawn yn cerdded i ben y bryn tu ôl i Goedely a chael tipyn o hanes amaethyddiaeth yn yr ardal yn ogystal ag ymweld â dau ffermdy oedd yn deillio nôl i'r ail ganrif ar bymtheg. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn.

Bydd y daith gerdded nesa am **10.30 fore Sadwrn 13 Rhagfyr**, cwrdd yng Ngwarchodfa Natur Cynffig (CF33 4PT). Croeso cynnes i unrhyw un sy'n mwynhau cerdded.

Mae ein dau glwb cinio yn dal yn llwyddiannus – fis Tachwedd daeth dros 20 o bobl i fwynhau pryd a chlonc ym mwyty'r Tymhorau yng ngholeg Pen-y-bont. Roedd hi'n braf iawn gweld nifer o wynebau newydd yno.

Byddwn ni'n cwrdd yno nesa am **12 o'r gloch** ddydd **Mercher 21 Ionawr.** Roedd tua 15 wedi dod i gaffi Just Because ym Mhontyclun, cartref newydd ein clwb cinio arall. Unwaith eto croeso cynnes i Gymry lleol alw draw yn y naill neu'r llall. Byddwn ni'n cwrdd yn Just Because ddydd **Mawrth 2 Rhagfyr** ac wedyn ddydd **Mawrth 6 Ionawr am 1 o'r gloch**.

Ddydd Iau diwethaf aeth criw ohonon ni ar daith i Gaerfyrddin a Llanelli. Cafwyd ychydig o oriau yng Nghaerfyrddin i gael pryd ac ychydig o siopa ac roedd hi'n braf iawn i'r dygwyr allu mynd i mewn i'r siopau a'r bwytai lleol a chlywed pawb yn siarad Cymraeg. Yna ymlaen i stiwdio Tinopolis i gael taith o amgylch y stiwdio yno cyn gweld rhaglen Wedi 7 yn cael ei darlledu'n fyw.

Ar drothwy'r Nadolig bydd Gwasanaeth Carolau'r Ganolfan am 11 o'r gloch yng nghapel Salem, Pentre'r Eglwys fore Iau 4 o Ragfyr. Bydd nifer o'n dysgwyr yn cymryd rhan yn darllen carolau, actio drama'r Nadolig, canu carolau a bydd grŵp clychau Porthcawl yno hefyd. Dewch i ddathlu gyda ni a chael paned a sgwrs wedyn.

Mae nifer o gynlluniau Pontio wedi bod yn cymryd lle yn ystod y tymor hefyd. Gyda'r cynllun mae siaradwyr rhugl yn mynd i mewn i'n dosbarthiadau i sgwrsio yn gwbl anffurfiol mewn grwpiau bach gyda'r dysgwyr am tua ugain munud. Mae hwn yn brofiad da iawn i'n dysgwyr a hoffwn i ddiolch yn fawr iawn i'r rhai hynny sy wedi gwirfoddoli i fynd i mewn i'r dosbarthiadau yn ystod tymor yr hydref. Bydd y cynllun yn parhau yn y flwyddyn newydd gyda dau ymweliad y tymor yn y gwahanol ddosbarthiadau. Os hoffech chi gymryd rhan yn y cynllun baswn i'n falch iawn clywed oddi wrthoch chi.

I gael mwy o wybodaeth am y Pontio neu unrhyw un o'n digwyddiadau cysylltwch â Shân ar 07990578407

Cynllun Addysg Gymraeg

Mae Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf wedi paratoi Cynllun Addysg Gymraeg sy'n egluro sut y bydd y Cyngor yn darparu gwasanaethau addysg yn y Gymraeg ac yn ddwieithog. Mae modd gweld copi o'r Cynllun Drafft a chyflwyno sylwadau drwy wefan y Cyngor, www.rhondda-cynon-taf.gov.uk, neu mae modd mynnu copi caled o'r cynllun draft yn rhad ac am ddim trwy gysylltu â Keith Davies, 01443 744084.

Mae'r ymgynghoriad yn parhau hyd 13 Chwefror 2009 ac mae angen anfon unrhyw sylwadau i Mr Gareth Rees, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaeth Addysg, Ty Trevithick. Abercynon. C45 4UQ.

Sgio * Nofio * Merlota * Gwibgartio
"Motorbeics" * Cwrs Rhaffau * Disco
Trip i'r Traeth * Trampolin
Twmpath Dawns a llawer mwy...

Penwythnos Teulu i Langrannog
Ebrill 3-5 2009

* Croeso i Rieni Cymraeg a Di-Gymraeg *

PRISIAU

OEDOLION	£115
PLENTYN 8+	£92
PLENTYN 4-7	£73
PLENTYN 2-3	£57
DAN 2	£15

menter caerdydd

Y Gymraeg bob tro

Ydych chi eisiau i'r cyngor gyfathrebu â chi fel unigolyn, naill ai drwy lythyr neu dros y ffôn, trwy gyfrwng y Gymraeg?

Os felly, ffoniwch, anfonwch lythyr neu neges ebost yn nodi'ch manylion

Uned Gwasanaethau Cymraeg
Tŷ Trevithick Abercynon Aberpennar CF45 4UQ . **01443 744033**
Caroline.m.mortimer@ rhondda-cynon-taf.gov.uk

Canolfan Iechyd
Y cwestiwn ar wefusau pawb yn Gilfach y dyddiau hyn yw 'Ydych chi wedi bod i mewn i'r Ganolfan Iechyd newydd?' Ers bron i ddwy flynedd mae gwaith wedi bod yn mynd ymlaen yn adeiladu'r Ganolfan Newydd ac mae pawb yn canmol y gwaith cerrig a'r gwaith pren sydd tu allan i'r adeilad a nawr rydym yn aros i weld beth fydd yn digwydd i'r to sydd â math arbennig o laswellt yn tyfu arno. Tybed a fydd rhywun yn gorfod torri'r gwair ar y to yn yr haf? Cawn weld yn yr haf. Mae pawb yn falch o'r adeilad newydd a'r holl gyfleusterau sydd tu fewn. Diolch o galon i Ymddiriedolaeth Iechyd Rhondda Cynon Taf am y Ganolfan newydd hyfryd yma.

Marwolaeth
Roedd trigolion Sŵn yr Afon a'i ffrindiau i gyd yn flin iawn i glywed am farwolaeth sydyn Mrs Eirwen Gwilliam. Symudodd Mrs Gwilliam a'i gŵr George o Donyrefail i fyw yn y fflatiau rhai blynyddoedd yn ôl. Roedd yn hapus iawn yno ac ymunodd ym mhob peth oedd yn mynd ymlaen. Bu am flynyddoedd yn glanhau yr Ysgol

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Betsi Griffiths

Gymraeg yn Nhonyrefail. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei theulu, George ei gŵr a Clair ei merch a Paul ei mab a'r wyrion Mali, Twm a Branwen. Bu'r Gwasanaeth yn Eglwys Sant Barnabas ac yna yn Amlosgfa Llangrallo. Carai'r Teulu ddiolch am dros £800 o gyfraniadau at Glefyd Alzheimer.

Cyngerdd
Hyfryd oedd mynd i Gyngerdd gan Gymdeithas Gorawl Pontypridd yn ddiweddar a gwrando ar yr unawdydd Sioned Ellis. Merch a fagwyd yn Nhonyrefail yw Sioned (Hunt gynt) ond symudodd i'r Wyddgrug wedi derbyn swydd yno ac erbyn hyn mae Sioned yn gantores broffesiynol yn canu mewn cyngherddau ac yn cymryd rhannau pwysig gyda chwmnïau opera proffesiynol. Mae ei ffrindiau a'i theulu yn y Gilfach yn falch iawn ohoni. Llongyfarchiadau Sioned a dymuniadau gorau am y dyfodol.

Dosbarth Gwnio a Chrefftau
Mae merched y dosbarth wrthi'n brysur ar hyn o bryd yn gwerthu'r pethau a wnaethant yn ystod yr haf a'r hydref er budd Tŷ Hafan. Diolch i'r holl bobl sydd mor barod i brynu er mwyn cefnogi Tŷ Hafan.

Y Guild
Bu sawl noson ddiddorol yn ddiweddar. Bu'r merched wrthi'n brysur yn pacio parseli ar gyfer 'Operation Christmas Child' er mwyn anfon parseli at blant anffodus mewn gwledydd eraill a daeth Mrs Edwina Smallman yno i'w casglu. Mae Mrs Smallman wedi cael dros 200 o barseli ac mae rhagor i ddod eto a £140 o gyfraniadau gan bobl Gilfach.

Cafwyd noson pryd y bu Mrs Sheena Crossley yn dangos sleidiau o blanhigion sydd yn addas ar gyfer roceri, felly does dim esgus ar gyfer y flwyddyn nesaf! Noson arall daeth Mr Walter Jones a hen offer tŷ, fferm a'r pwll glo ac roedd yn ddiddorol iawn i weld yr hen offer .

Cyn y Nadolig mae Côr Cymunedol Gilfach yn dod i roi Noson Dymhorol.

NADOLIG Y PLANT

Beth sydd yn un o'r pasreli hyn? Rhaid i chi ddatrys y pos yma i gael gweld. Mae un llythyren ar gyfer pob rhif. Mae'r ateb yn ddau air.

1. Mae'r cyntaf yn gwneud sŵn neidr.
2. Mae'r ail yng nghanol dŵr.
3. Mae'r trydydd ar ddechrau iâr.
4. Mae'r pedwerydd ar ddechrau'r peth sydd ar eich pen.
5. Mae'r pumed yn grwn i gyd.
6. Mae'r chweched ar ddechrau a diwedd dafad.
7. Yr ail lythyren yn y wyddor eto.
8. Hon yw'r gyntaf un.
9. Rhaid cael hwn ar ddiwedd yr anifail blewog sy'n eistedd wrth y tân.

Lliwiwch Siôn Corn

Y Chwilotwr Chwim

S	E	R	E	N	G	G
I	O	R	W	G	E	O
O	N	O	R	E	N	L
N	R	B	A	A	I	A
C	U	I	C	N	A	U
O	DD	N	A	G	E	T
R	A	U	S	E	I	E
N	A	D	O	L	I	G

ADDURNO	GOLAU	ROBIN
ANGEL	IESU	SEREN
CARW	IORWG	SION CORN
CNAU	NADOLIG	TEGAN
GENI	OREN	



Lliwiwch y lluniau



Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James

Ffarwelio a Chroesawu
Diolch yn fawr i Gemma Mearns a John Rivers am eu gwaith caled yn ystod y tymor. 'Rydym yn falch o groesawu Meinir Morris a Kate Spencer yn ôl i'r ysgol ar ôl cyfnodau mamolaeth.

Gwasanaethau
Cafwyd gwasanaeth diolchgarwch arbennig yn cynnwys eitem gan holl ddosbarthiadau'r ysgol a diolch i Mrs. Gillian Frowen am addurno'r neuadd yn hyfryd. Casglwyd £205 i elusen Dr Barnardos a daeth cynrychiolydd o'r elusen Mrs. Iris Williams i'r ysgol i dderbyn yr arian.

Casglwyd £565 ar ddiwrnod Plant Mewn Angen eleni. Daeth y plant i'r ysgol mewn gwisg ffansi ac 'roeddent yn llawn cyffro wrth weld yr athrawon yn gwisgo crysau-T "Pudsey" a "bandanas".

Yn ystod wythnos Gwrth Fwlian cafodd pob dosbarth amser i feddwl am y pwnc a gwnaeth plant yr adran iau ddarllen darnau o farddoniaeth 'roeddent wedi wu llunio ar gyfer cystadleuaeth Y Cynulliad mewn gwasanaeth. Neges y gwasanaeth oedd 'Nid oes lle i fwlian yn ein byd ni'.

Diolch i'r Parch. Simon Walkling am ddod i'r ysgol i gynnal gwasanaeth a siarad gyda dosbarthiadau 8 a 9 am ei waith yn y gymuned.

Cyngor Ysgol
'Roedd cyffro mawr ym mis Medi pan drefnodd Mrs. Rhian Ratcliffe y byddai blychau pleidleisio go iawn yn y neuadd a bu'r plant yn pleidleisio dros gynrychiolwyr i'w dosbarthiadau. Erbyn hyn mae aelodau'r Cyngor Ysgol wedi cael eu dewis ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion yn ymwneud â'u dosbarthiadau.

Chwaraeon
Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed merched yr ysgol am gyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth saith bob ochr Pontypridd.

Côr yr ysgol a pharatoadau ar gyfer y Nadolig
Mae côr yr ysgol wedi mwynhau dysgu carolau newydd ar gyfer gŵyl gorawl yn Eglwys Gadeiriol Llandaf unwaith eto eleni. Mae pob dosbarth yn brysur yn paratoi ar gyfer y Nadolig : bydd cyngherddau plant y cyfnod sylfaen yn yr ysgol a bydd gwasanaeth carolau plant yr adran iau yn Eglwys Santes Catherine ym Mhontypridd.

Diolch i Gymdeithas Y Rhieni ac Athrawon am drefnu'r Ffair Nadolig.

Edrychwn ymlaen at groesawu teuluoedd plant yr ysgol i ganu carolau yn anffurfiol a chymdeithasu ar Ragfyr y 18fed.

Lluniau tudalen 16.



Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau

Enillydd Croesair Mis Tachwedd: Sheila a Rhys Dafis, Creigiau.



Atebion erbyn 20 Rhagfyr 2008 i: Croesair Col 34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX

Ar Draws
7 Cyfrif (4)
8. Gwneuthurwr llestri pridd (8)
9. Dyfarniad (11)
11. Heb fod yn hawdd (4)
12. Cnewyllyn (8)
14. Cerrig gwerthfawr (8)
18. Pwysi (4)
19. Teimlad caredig (11)
21. Byddaf yn gwneud sŵn fel y frân (8)
22. Bwrw oen (4)

I Lawr
1. Puro o hadau clefyd (9)
2. Rhodd er cof am rywun (6)
3. Arwerthiant (6)
4. Anifeiliaid anwes i'w cadw mewn caets (6)
5. Rhywiogaeth (6)
6. Llygoden goch, chwistlen (3)
10. Ffwlcrwm (9)
13. Cynnyrch electroleiddiad (3)
15. Un sy'n gweithio mewn mwynglawdd (6)
16. Aros (6)
17. Dweud y llythrennau mewn gair (6)
18. Blinder, gofid (6)
20. Clod, enw da (3)

Atebion Tachwedd

P	A	W	B	A	T	Y	P	E	TH		A	T	
L		E						N		Y	B	O	
E		I	R	A	I	D		C		LL			
N		TH		R		A		I		E		E	
T	R	I	G	F	A	N		L	A	W	N	T	
Y		A				T		I				I	
N	E	N	T	Y	DD		B	O	N	LL	E	F	
D				M		C				E		E	
O	E	L	I	O		N	E	I	D	I	O	DD	
D		E		L		O		A		A		I	
		I	A	CH		T	A	R	A	N		A	
LL	O	N		F						D		N	
I	G		C	A	N	O	L	B	W	Y	N	T	

Ysgol Gynradd Garth Olwg

Pêl-rwyd
Mae'r tîm pêl rwyd wedi cymryd rhan mewn gweithdy ym Mhrifysgol Morgannwg. Mwynheuodd y plant ymarfer eu sgiliau a chwrdd â phlant o ysgolion eraill. Diolch yn fawr i fyfyrwyr y Brifysgol am arwain y sesiynau.

Wythnos Eco
Mae'r ysgol gyfan wedi bod yn dathlu 'Wythnos Eco' ym mis Tachwedd. Fel rhan o'r dathliad, mae dosbarth Mrs Davies wedi bod yn edrych ar ynni. Cafodd dosbarth Mr Meredith sgwrs am safio dŵr, a mwynheuodd yr Adran Fabanod gwrdd â 'Rhys Recycle' a 'Freda Frog'. Yn ogystal, gwisgodd pawb rhywbeth gwyrdd ddydd Gwener, 21ain er mwyn codi ymwybyddiaeth Eco. Diolch i bawb am eu cyfraniad.

'Bullies Out'
Daeth cwmni 'Bullies Out' i ymweld â Blwyddyn 5. Buodd y plant yn trafod mewn gweithdy brwd, ac fe gafodd pawb gyfle i wneud llaw cyfeillgarwch.

Clwb Carco
Dewch yn llu i ymuno â'r hwyl yng Nghlwb Carco yr ysgol. Edrychwn ymlaen at y gweithdy Celf Nadolig ddydd Mercher, 3ydd Rhagfyr, a'r parti Nadolig ar y 18fed Rhagfyr. Cysylltwch â'r ysgol am fwy o fanylion. Cofiwch, cynta' i'r felin…..!

Cyngor Ysgol
Penderfynodd Cyngor yr Ysgol gasglu i elusen 'Operation Christmas Child' y flwyddyn hon. Mae plant a rhieni'r ysgol wedi bod yn brysur felly yn llenwi hen focsys esgidiau gydag anrhegion ar gyfer plant llai ffodus. Casglon ni dros 60 bocs. Diolch i Mrs Leyshon a phlant Cyngor yr Ysgol am drefnu'r holl waith.

Gweithdy India
Fel rhan o'r prosiect UKIERI, aeth Blwyddyn 6 i'r Ganolfan Gydol Oes i fwynhau bore llawn hwyl mewn Gweithdy Indiaidd. Fel rhan o'r gweithdy, fe wnaeth y plant 'Saris', a chwrdd â dawnswraig a chantorion Indiaidd.

Ddydd Gwener, Tachwedd 14eg aeth blwyddyn 6 i'r Ganolfan Gydol Oes i wneud dawnsio Indiaidd gyda thair ysgol arall o Gymru: Ysgol Gynradd Maes-yr-Haul o Ben y bont, Ysgol Gynradd Gilwern o Fynwy ac Ysgol Gynradd Malpas Court o Gasnewydd. Hefyd daethon nhw i'n hysgol ni i fwyta eu cinio gyda ni a chwarae pêl droed yn ein cwrt. Cawson ni lawer o hwyl ac rydym yn hapus daethon nhw i'n gweld ni.

Gan James Christopher

Rydyn ni wedi pleidleisio dros y disgyblion dylai fod ar Gyngor yr Ysgol a'n Cyngor Eco. Roedd gennym flwch pleidleisio iawn a ffurflenni pleidleisio. Pleidleision ni yn deg wrth gael y plant i ddewis. Ysgrifennon nhw ar ddarn o bapur pwy roedden nhw'n meddwl fyddai orau i fynd ar y pwyllgorau. Cawson ni ddau o bob Dosbarth ac un ychwanegol o flwyddyn 6. Dyma'r plant gafodd y fwyaf o bleidleisiau ym mlwyddyn 6 i'r Cyngor Eco : Brooke Webb ac Elis Widgery a Zac Mather yn aros ymlaen am flwyddyn arall. Ar Gyngor yr Ysgol roedd Erin Jones, Grace Jones a Gruff Bowen- Jones.

Gan Eleri Anwen Roberts

Ddydd Gwener, Tachwedd 14eg cododd yr ysgol arian ar gyfer Plant Mewn Angen. Rhoddodd bawb arian i wisgo dillad eu hunan. Gwnaeth plant blwyddyn 6 stondinau yn gwerthu hen bethau, raffl, "Enwi'r Tedi" a 'Lucky Dip' a mwy. Gwnaeth rhai plant weithgareddau yn y cwrt. Noddodd 3 phlentyn Mr Meredith (cefnogwr Lerpwl) i wisgo crys a het Chelsea a'r £27 i gyd yn mynd at y casgliad. Ar ddiwedd y dydd, casglon ni gyfanswm enfawr o £403.33! Cafodd pob plentyn hwyl yn prynu a gwerthu pethau.

Gan Gruffydd Bowen Jones

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577

LLONGYFARCHIADAU I HANNAN A DELUN
Llongyfarchiadau i ddwy o drigolion Tonyrefail a'r Gilfach Goch - Hannah Dando a Delun Jones. Mae'r ddwy ym mlwyddyn 11 yn Ysgol Gyfun Llanhari. Cawson nhw gyfle i gymryd rhan yn y gystadleuaeth darllen cyhoeddus yn rowndiau terfynol Prydeinig y Ffermwyr Ifainc. Mewn cystadleuaeth o safon uchel rhwng deg tîm, daethon nhw'n ail. Roedd yn ddiwrnod da iawn i Gymru gan i'r tîm buddugol ddod o Sir Benfro.

Yn y gystadleuaeth bu'n rhaid i'r merched ddarllen tudalen o lyfr a ddewiswyd gan y beirniaid. Maen nhw'n cael gwybod o ba lyfr y byddant yn darllen cyn y gystadleuaeth, ond yn cael rhif y tudalen ddeg munud cyn gorfod codi a darllen o flaen cynulleidfa. Da iawn ferched.

Llun - tudalen 13

Lledu'r gair am 'Gwstard' gwych

Wyddech chi fod 411,422 o lyfrau wedi eu cyhoeddi yn 2007? Random Deaths and Custard gan Catrin Dafydd o Waelod y Garth oedd un o'r llyfrau hynny ac mae'n wych o beth bod ei nofel Saesneg gyntaf wedi cyrraedd rhestr o 50 teitl ar gyfer ymgyrch 'Spread the Word: Books to Talk About 2009'. Dyma'r unig lyfr o wasg yng Nghymru i gyrraedd y rhestr, ac mae Gwasg Gomer yn falch iawn o lwyddiant un o'i awduron ifanc. Trefnir y gystadleuaeth fel un o ymgyrchoedd Diwrnod y Llyfr a bydd rhestr fer o 10 teitl yn cael ei chyhoeddi ar 30 Ionawr 2009 a bydd yr enillydd yn cael ei gyhoeddi ar Ddiwrnod y Llyfr sef 5 Mawrth 2009.

Y cyhoedd i bleidleisio - dyna'r drefn rydyn ni'n gyfarwydd â hi bellach, felly beth am fynd ati i roi pleidlais i *Random Deaths and Custard* gan Catrin Dafydd? Ewch i wefan www.spread-the-word.org.uk a rhowch Gymru ar y map!

Apêl i helpu'r sefyllfa yn y Congo

Mae DEC Cymru a sêr tîm rygbi Cymru yn galw ar bobl Cymru i gefnogi apêl i roi cymorth i'r rheiny sydd wedi eu dal yn yr argyfwng yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo.

Dros yr wythnosau diwethaf mae mwy na 250,000 o bobl wedi eu gorfodi i ffoi o'u cartrefi i osgoi'r rhyfela, gan ychwanegu at y filiwn a mwy o bobl sydd eisoes yn ddigartref.

I gyfrannu ewch i'n gwefan www.dec.org.uk neu ffoniwch y DEC ar 0370 60 60 900 neu gallwch gyfrannu mewn unrhyw fanc ar y stryd fawr neu swyddfa bost, neu yn un o siopau Y Groes Goch Brydeinig, Help the Aged, Oxfam ac Achub y Plant ar hyd a lled Cymru.

Aelodau DEC Cymru yw Y Groes Goch Brydeinig, Cymorth Cristnogol, Help the Aged yng Nghymru, Oxfam Cymru, Achub y Plant a Tearfund.



Catrin Dafydd

Nofel Newydd i Blant

Cyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol a moesol plant rhwng 7 ac 11 oed yw gobaith yr awdures Eurgain Haf gyda'i nofel newydd Siencyn a Dan Draed a gyhoeddir gan Wasg y Dref Wen yng Nghaerdydd.

Crwydryn yw Siencyn. Does ganddo ddim cartref, dim arian, a gan ei fod wedi colli ei gof, does ganddo ddim gorffennol chwaith. Nid Siencyn ydi ei enw go iawn, ond mae Siencyn yn odli hefo trempyn, a dyna'r cwbl ydi o i blant y fro sy'n galw enwau arno - hen drempyn budr, blêr.

Dyma'r llyfr cyntaf o bedwar yng nghyfres Siencyn a Dan Draed gan Eurgain Haf, sy'n byw ym Mhontypridd, a bydd y llyfr yn y siopau o'r mis yma.



Ffermwyr Ifanc Tonyrefail

Delun a Hannah o Glwb Ffermwyr Ifainc Llantrisant gyda Morgan Williams o Glwb Pen-y-bont ar Ogwr

Lluniau Ysgol Garth Olwg

Gweithdy 'Bwlis Mas'

Bocsys Esgidiau ar gyfer 'Operation Christmas Child'

'Freda Frog'



PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Brysiwch wella!
Gwellhad buan i Jane Aaron, Trefforest sydd wedi bod yn derbyn triniaeth yn ddiweddar. Hefyd i Dan Thomas, Y Comin sydd wedi treulio ychydig o amser yn yr ysbyty.

Priodas
Dymuniadau gorau i Rhodri Francis, gynt o Graigwen - mab hyna' David a Margaret - a briododd Noi o Wlad Thai ar Ragfyr 6ed. Maent wedi ymgartrefu yn Aberystwyth lle mae Rhodri wedi bod yn gweithio ers nifer o flynyddoedd.

Merched Y Wawr
Cynhelir ail gyfarfod y gangen newydd yn y YMCA yng nghanol y dref nos Iau, Rhagfyr 11eg am 7.30. Bydd Luned Jones, Caerdydd sy'n gweithio i Oxfam yn annerch - cawn wybod mwy am ymgyrch y bras - dewch â'ch cyfraniadau gyda chi! Bydd coffi a mins peis a chyfle am gloncar ddiwedd y noson.

Diolch o galon i'r ugain ddaeth y tro diwetha'. Ein nod yw dyblu'r nifer y tro yma

Croeso cynnes i bawb. Am fwy o fanylion cysylltwch â Margaret Francis neu Jayne Rees.

CAM RADICAL YM MYD CREFYDD

Mae gwefan Gymraeg newydd wedi cael ei sefydlu ar Ragfyr 1af i drafod Cristnogaeth radical, gyfoes. Cafodd ei disgrifio fel ymgais gyffrous i ail-ddehongli Cristnogaeth ar gyfer yr oes bresennol, a bydd yn rhoi cyfle i bobl gyfnewid syniadau heb ddisgwyl unffurfiaeth barn.

Meddai Vivian Jones, un o'r sefydlwyr, "Ymdrech yw *Cristnogaeth 21* i gynnal fforwm i roi llais i ystod eang o safbwyntiau diwinyddol Cristnogol er mwyn miniogi a chyfoethogi meddylfryd Cristnogol Gymraeg."

Dywedodd Pryderi Llwyd Jones, "Rwy'n gweld y datblygiad hwn fel cam cwbl angenrheidiol i ddyfodol Cristnogaeth Gymraeg, wrth i ni greu cymuned ar y We a fydd yn medru trafod pynciau diwinyddol a moesol sy'n berthnasol i'n hoes ni."

Sefydlwyd y wefan gan griw o weinidogion profiadol a lleygwyr sy'n teimlo bod y Gymru Gymraeg wedi dioddef yn ystod y blynyddoedd diweddar o ddiffyg trafodaeth eang ar natur Cristnogaeth yn ein dyddiau ni. Y teimlad ymhlith y sefydlwyr yw bod y 'meddwl crefyddol' yng Nghymru yn ofnus a mewnblyg, oherwydd mai dyna natur byw mewn cyfnod o gilio. Y gobaith yw y bydd hyn yn cael ei ystyried yn ddatblygiad cyffrous - a rhai yn ei weld yn gam beiddgar - tuag at wneud Cristnogaeth radical a chynhwysol yn allweddol i ffydd gyfoes mewn cyfnod pan mae ceidwadaeth a chulni crefyddol ar gynnydd.

Y bwriad yw cyhoeddi cyfres o erthyglau ar ystod eang o bynciau, gyda chyfle i ymateb a thrafod. Ymhlith y cyfranwyr cyntaf i'r wefan y mae John Gwilym Jones, D. Eirian Rees, Desmond Davies, Pryderi Llwyd Jones a Vivian Jones.

Mae'r wefan ar gael ar www.cristnogaeth21.org

Ysgol Gyfun Llanhari

Cynghrair Cymru
Unwaith eto tîm rygbi hŷn Llanhari fydd yr unig gynrychiolydd o ardal Pontypridd yng Nghynghrair Sadwrn Ysgolion Cymru. Eleni mae'r ysgol wedi cael ei roi yn yr adran orllewinol. Adran sy'n cynnwys ysgolion cryf, megis Brynteg, Y Bontfaen a Strade. Sialens enfawr gan mai tîm ifanc iawn fydd gan yr ysgol, yn cynnwys nifer o ddisgyblion blwyddyn 11.

Mae'r bechgyn i'w canmol am yr holl amser y maent yn fodlon ei rhoi i gynrychioli'r ysgol, ymarfer ddwywaith yr wythnos, chwarae ar ddydd Sadwrn gan gynnwys teithio mor bell â Chaerfyrddin a Llandeilo.

Ar ddiwedd yr hanner tymor fe deithiodd y bechgyn i Aberhonddu a churo Coleg Crist mewn gêm gyffrous.

Rygbi'r Gynghrair
Yn ystod mis Tachwedd mae hyfforddwyr o dîm y 'Celtic Crusaders' wedi bod yn ymweld â'r ysgol i baratoi y disgyblion ar gyfer cystadleuaeth ranbarthol rygbi'r gynghrair. Hwn fydd y tro cyntaf erioed i ysgol Llanhari gystadlu yn y gêm tri dyn ar ddeg. Pob lwc i'r bechgyn!

Llythyr i'r Golygydd

5, Stryd Pwll y Garth,
Mynydd Cynffig,
Penybont ar Ogwr,
CF33 6ES,

Annwyl Olygydd,
Ar yr 11eg o Dachwedd 2008 dangosodd rhaglen "Y Byd ar Bedwar" taw nifer fach o bobl sydd yn defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn hynod o siomedig wrth ystyried yr ymdrech a'r aberth gan unigolion, Cymdeithas yr Iaith ac eraill i gael yr hawl i ddefnyddio'n hiaith ym mhob agwedd o'n bywydau. Rhaid cofio'r ffaith syml bod angen defnyddio iaith er mwyn ei chadw.

Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar eto. Mae'n debyg y bydd yn cymryd amser i bob siaradwr Cymraeg ddod i'r arfer â defnyddio gwasanaethau yn eu hiaith eu hunain.

Mae mwy o wasanaethau newydd yn dechrau cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg trwy'r amser. Er enghraifft mae Tesco wedi cyflwyno gwasanaeth Cymraeg yn eu peiriannau hunanwasanaeth. Mae hwn yn wych. Wedi defnyddio'r gwasanaeth ein hunan, gallwn argymell y broses syml hon. Y cyfan sydd angen ei wneud ydy gwasgu'r botwm "Cymraeg" ar y sgrin, ac yna parhau i sganio eich eitemau. Dim problem, ond os oes problem, mae staff Tesco wastad yn barod i'ch helpu chi! Mae'n rhaid i ni fel Cymry Cymraeg ddefnyddio'r gwasanaethau yma, neu mi fyddwn yn eu colli.

Cofiwch fod yna nifer o wasanaethau eraill y medrwn eu defnyddio drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys llinellau ffôn Cymraeg, cael llyfrau siec Cymraeg, ysgrifennu sieciau Cymraeg, defnyddio'r "twll yn y wal" a hefyd yr hawl i ysgrifennu at awdurdodau lleol a.y.y.b yn y Gymraeg, a chael ateb yn yr iaith. Cofiwch fod hwn yn fwy na hawl yn unig, mae hefyd yn etifeddiaeth mae Cymry'r dyfodol yn ei haeddu.

Yn gywir, Janette a Colin Lewis

Gallwch weld y rhifau ffôn Cymraeg ar www.cymorth.com

YSGOL GYFUN GARTH OLWG

www.rhydfelen.org.uk

Yr Adran Gerddoriaeth

Yn ystod y ddau fis diwethaf mae nifer o ddisgyblion yr ysgol wedi bod yn mynychu gweithdai offerynnol Llinynnol, Chwythbren a Lleisiol a drefnwyd gan Wasanaeth Cerddoriaeth y Pedair Sir. Ymysg y rhain o Flwyddyn 10-13 oedd Catrin Evans, Elinor Rhys, Tomas Watkins, Eleanor Breen O'Byrne, Eluned Tucker, Gwern Parri, Reeve Wilson a Rhian Davies.

Mynychodd pedwar o ddisgyblion o Flwyddyn 8 gwrs sylfaen i Delynorion sef Megan White, Anwen Dean, Lauren Price a Mari Rees. Byddant yn perfformio mewn Cyngerdd Mawreddog ar ddechrau mis Rhagfyr.

Llongyfarchiadau hefyd i Mari a Lauren ar gael eu dewis i berfformio yng Ngŵyl Gerddorol y Sir yn Llandaf ar y cyd gyda disgyblion o Ysgol y Gadeirlan, Caerdydd.

A llongyfarchiadau mawr i Liam Simons - sydd wedi cael clyweliad gyda chwmni Opera Cenedlaethol Cymru!

Adran Ymarfer Corff
Llwyddiannau Chwaraeon 2008
Rydym yn llongyfarch y canlynol ar eu gorchestion !

Owen Sheppard - Rygbi Gleision-17
Lewis Jones, Dale Parsons, Lloyd Montague – Gleision -16
Scott Pickering, Sam Owens, Dillon Lewis, James Edwards -Rygbi RCT -12
Liam Rees – Nofio Caerdydd
Ieuan Winterburn - Rygbi'r Gynghrair Gorllewin Cymru -13
Ryan Bonsu - Caerdydd -15
Carwyn Rees, Cai Morgan - Academi Pêl-droed RCT
Thomas James - Academi Pêl-droed Caerdydd
Joseff Thomas, Rhys Cutts - Carfan Datblygu Pêl-droed Caerdydd
Nicole Aston – Dawnsio – Cymru
Carys Thomas – Rygbi Cymru – 20
Hannah Thomas – Rygbi – Gleision-16 / Gorllewin Cymru
Sara Prosser - Dreigiau -16
Cerys Britton – Hoci Sir -18
Amber Jones - Pêl-rwyd y Sir -16
Georgia Cooper - Gymnasteg Cymru
Kelsie Ryan - Hoci Sir -18

Cystadleuaeth Gala Nofio Rhanbarthol yr Urdd

Llongyfarchiadau i Elise Rees, Blwyddyn 10 ac i Liam Rees, Blwyddyn 8 ar ennill eu cystadlaethau a hefyd i'r tîm ras gyfnewid merched ar gyrraedd y rownd genedlaethol.

Dyddiadur Taith Costa Rica

Rhan 3

4Awst 2008
Ar ôl dau ddiwrnod o deithio, roeddem yn falch i gyrraedd tref o'r enw Puerto Jimenez. Roeddem wedi teithio o ogledd y wlad reit lawr i'r de, lle'r oedd y tywydd yn boethach fyth! Cawsom gyfle i ymlacio mewn hostel a nofio yn y Môr Tawel, cyn dechrau rhan fwyaf anturus ein taith - 5 diwrnod o gerdded trwy'r goedwig law.

5 Awst 2008
Ar ôl mwynhau ein noson olaf mewn gwely cyfforddus, fe adawom i ddechrau ein taith gerdded, i le o'r enw Carate. I gyrraedd Carate roedd rhaid i ni sefyll ar gefn lorri llawn pobl am daith hir o 45km ar draws ffyrdd anesmwyth! Ar ôl cyrraedd fe ddechreuom ar ein taith ar draws traethau at yr orsaf gyntaf lle roeddem yn mynd i fod yn gwersylla, La Leona.

6 Awst 2008
Roedd rhaid codi'n gynnar i baratoi brecwast a phacio'n holl bebyll i fyny er mwyn dechrau ar ein diwrnod llawn o gerdded. Roedd y diwrnod hwn yn un anodd dros ben yn cerdded weithiau trwy'r goedwig ac weithiau ar draws traethau gyda bagiau enfawr a trwm ar ein cefnau. Roedd yn enwedig o anodd oherwydd roedd rhaid i ni gerdded yn gyflym drwy'r dydd er mwyn gallu croesi afonydd cyn i'r llanw ddod i mewn. Roedd yn ddiwrnod llawn a heriol dros ben ac roeddem yn falch i gyrraedd ein gorsaf nesaf La Sirena.

7 Awst 2008
Roeddem yn arbennig o falch i gyrraedd La Sirena oherwydd roeddem yn mynd i fod yn treulio dwy noson yno. Felly, treuliom ni'r diwrnod yn gorffwyso ac yn gwneud ychydig bach o gerdded o amgylch yr orsaf.

8 Awst 2008
Roedd rhaid deffro cyn toriad gwawr ar y diwrnod hwn - roeddem yn mynd i gerdded 24km trwy'r goedwig. Roeddem yn lwcus dros ben i gael arweinydd oedd yn arbenigo yn yr ardal ar gyfer y rhan yma o'r antur. Roedd eto'n ddiwrnod hir o gerdded ond roedd ysbryd ein grŵp yn uchel wrth i ni gyrraedd ein gorsaf olaf Los Patos.

9 Awst 2008
Ar ôl gwario ein noson olaf yn y babell, roedd dechrau cynnar arall yn ein haros, wrth i ni ddechrau ar ein diwrnod olaf o gerdded a mynd yn ôl i gymdeithas. Wrth i ni gerdded yn eiddgar ac yn frwdfrydig i gyrraedd tref, roedd rhaid croesi afon 17 o weithiau ac felly wedi amser hir o gerdded roeddem yn hapus i gyrraedd tref a chael manteisio ar y siop leol. Neidiom ar fws ac roeddem yn hapus i gyrraedd yr Hostel ac i gael gwely clud i gysgu ynddo a hefyd bod rhan anodd ein taith wedi dod i ben. Y rhan nesaf oedd ymlacio ar lan môr y Caribî!

Mwy y tro nesaf!

Alun Evans, Blwyddyn 13

Lluniau Tudalen 16

Adran Hanes – Taith Bayeux 2008

Ar 6 Tachwedd dechreuodd grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 7 ar y daith hir o ysgol Gyfun Garth Olwg i Bayeux. Pwrpas y daith oedd gweld brodwaith Bayeux sy'n adrodd stori ymosodiad y Normaniaid yn 1066.

Ar ôl brecwast hyfryd mewn gwesty yn Bayeux, cawsom gyfle i weld y brodwaith a'r gadeirlan ac i ymlwybro trwy strydoedd y dref yn mwynhau'r haul a gweld y siopau! Cawsom ginio yn Gaen mewn "Mall" lle'r oedd y profiad o ofyn am bethau mewn Ffrangeg wedi herio rhai o'r athrawon! Wedyn cyfle i weld Pont Pegasus lle glaniodd milwyr y Cynghreiriad yn 1944 - mae'r caffi a gafodd ei rhyddfreinio ar 4 Mehefin 1944 dal yno ac yn gwerthu coffi blasus!

Roedd llawer o hwyl ar y llong ar y ffordd adre - cwis, bingo, sinema, bwyd ac wrth gwrs, siopa!

Diolch i'r disgyblion oedd wedi ymddwyn yn wych ac i'r athrawon sydd, erbyn hyn, wedi cael amser i ddod dros eu blinder!

Disgyblion Bl 7

CÔR MERCHED CANNA

CÔR MEIBION TAF

"Dathliad Y Nadolig"

9 Rhagfyr 2008
TABERNACL Yr Ais, Caerdydd
7.30 pm.

Tocynnau: £5

Elw tuag at "Operation Christmas Child" a Chronfa Organ Y Tabernacl.

Ysgol Gynradd Dolau

Plant mewn Angen
Cynhaliom ni ddiwrnod 'pyjamas a thedi' ar gyfer codi arian at elusen Plant mewn Angen. Yn ogystal â gwisgo i fyny coginiom ni fisgedi Pudsey hefyd. Cafodd pawb ddiwrnod o hwyl yn eu gwisgoedd a chasglom dros £200.

Gala Nofio
Da iawn i dîm nofio'r ysgol a chystadlodd yng ngala'r Urdd ym Maesteg. Nofiodd pawb yn chwim yn erbyn nofwyr gorau'r sir. Llongyfarchiadau i Aled Webb am ennill ei ras broga a nawr fydd yn cystadlu'n genedlaethol ym mis Ionawr.

Ymweliad â Chastell Henllys
Aeth yr adran Iau ar ymweliad a Chastell Henllys fel rhan o'n hastudiaethau Hanes. Cafodd pob plentyn hwyl wrth ddysgu am Oes yr Haearn trwy weithgareddau amrywiol. Cawsom gyfle i adeiladu waliau, coginio bara, peintio ein hwynebau, gwehyddu basgedi a mwynhau yn naws y pentref Celtaidd. Ymweliad gwych!

Pêl-droed gyda Cardiff City
Dros yr wythnosau diwethaf mae Cardiff City wedi bod yn hyfforddi disgyblion blwyddyn 5. Cawsom gyfle i ymarfer a dysgu sgiliau newydd a chwarae gemau gyda'n gilydd. Diolch i hyfforddwyr Cardiff City am ein dysgu ni a rhoi'r cyfle i ni dderbyn hyfforddiant gan chwaraewyr proffesiynol.

Menter gwrth-fwlio
Aeth blwyddyn 6 i Ysgol Gyfun Llanhari i gwrdd ag aelodau NSPCC yn ystod wythnos gwrth-fwlio. Cawsant gyfle i siarad am y pwnc llosg, cynnig syniadau a thrafod pwysigrwydd atal bwlio ym mhob man - o fewn yr ysgol a thu allan yn eu bywyd personol.

Oliver!!
Aeth blwyddyn 5 a 6 i weld 'Oliver' yn Ysgol Gyfun Llanhari. Cawsom sioe fendigedig gan weld yr actio a'r canu a oedd o safon uchel iawn. Diolch i Lanhari am y cyfle i weld y sioe cyn y Nadolig.

Elusen 'Shoe Box'
Diolch i bawb a gyfrannodd focsys Nadolig at yr elusen bwysig yma. Casglom focsys ar gyfer gwahanol oedrannau i'w rhoi i blant llai ffodus na ni dros y byd. Gobeithio nawr fydd neb heb anrheg y Nadolig yma.

Castell Henllys

Elusen 'Shoe Box'

Gwehyddu basgedi

Hyfforddwr pêl-droed Caerdydd

Ysgol Evan James

Dosbarth 8 ar daith o gwmpas Pontypridd.
ac ar y dde
Aelodau Cyngor yr Ysgol

Taith hir ar draws y traeth yn Corcovado, Costa Rica

Taith i weld brodwaith Bayeux